

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygiadau sy'n Ymwneud ag Absenoldeb Profedigaeth Rhiant ac Absenoldeb Rhiant a Rennir) 2023

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Addysg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygiadau sy'n Ymwneud ag Absenoldeb Profedigaeth Rhiant ac Absenoldeb Rhiant a Rennir) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

30 Mawrth 2023

RHAN 1

1. Disgrifiad

1. Mae Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygiadau sy'n Ymwneud ag Absenoldeb Profedigaeth Rhiant ac Absenoldeb Rhiant a Rennir) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn diwygio Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/140 (Cy. 8)) ("Rheoliadau 2015").
2. Gwneir Rheoliadau 2015 o dan adran 14 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (dccc 5) ("Deddf 2014"), sy'n nodi yn adran 14(1) na chaiff person ddarparu gwasanaethau penodedig mewn ysgol oni bai bod y person yn athro cymwysedig neu'n athrawes gymwysedig, neu'n bodloni gofynion penodedig, a bod y person wedi'i gofrestru mewn categori cofrestru penodedig.
3. Mae Rheoliadau 2015 yn darparu na chaiff person gyflawni gwaith penodedig¹ mewn ysgol oni bai ei fod yn athro cymwysedig neu'n athrawes gymwysedig neu'n bodloni'r gofynion mewn o leiaf un o'r paragraffau yn Atodlen 3. Gall gweithwyr cymorth dysgu hefyd gyflawni gwaith penodedig mewn ysgol os ydynt yn bodloni'r amodau a nodir yn rheoliad 18A.
4. Pan ganiateir i berson gyflawni gwaith penodedig, yn unol â rheoliad 18A neu baragraff yn Atodlen 3, am gyfnod penodedig (fel ym mharagraff 4(2) sy'n ymwneud ag athrawon a hyfforddwyd dramor a all wneud hynny am gyfnod o ddwy flynedd), dim ond am y cyfnod a bennir y gall gyflawni "gwaith penodedig" heb gael statws athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig.
5. Mae rheoliad 16 yn nodi y bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn estyn y cyfnod penodedig y gall person gyflawni gwaith penodedig amdano mewn ysgol o dan amgylchiadau pan fo person yn absennol o'r gwaith o ganlyniad i arfer ei hawl i un o'r hawliau statudol rhestredig, sef absenoldeb mamolaeth, absenoldeb rhiant, absenoldeb tadolaeth ac absenoldeb mabwysiadu.
6. Mae Rheoliadau 2023 yn diwygio rheoliad 16 o Rheoliadau 2015 i gynnwys absenoldeb profedigaeth rhiant ac absenoldeb rhiant a rennir yn y rhestr o hawliau absenoldeb statudol y bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn eu cymhwyso er mwyn estyn cyfnod penodedig y gall person gyflawni "gwaith penodedig" amdano heb statws athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig.

¹ Mae rheoliad 17 yn nodi pa weithgareddau sy'n "waith penodedig" at ddibenion Rheoliadau 2015

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

7. Dim.

3. Cefndir deddfwriaethol

8. Roedd Rhan 7 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6) yn gwneud darpariaeth ar gyfer hawliau statudol newydd o ran absenoldeb rhiant a rennir a thâl rhiant a rennir i'w mewnosod yn Neddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (p. 18) ("Deddf 1996"), gyda manylion yr hawliau yn cael eu nodi yn Rheoliadau Absenoldeb Rhiant a Rennir 2014 (O.S. 2014/3050).
9. Mewnosododd adran 1 o Ddeddf Profedigaeth Rhiant (Absenoldeb a Thâl) 2018 (p. 24), a'r Atodlen iddi, hawliau statudol newydd yn Neddf 1996 i gyflogeion os bydd eu plentyn yn marw neu os cânt farw-enedigaeth, gyda manylion yr hawliau yn cael eu nodi yn Rheoliadau Absenoldeb Profedigaeth Rhiant 2020 (O.S. 2020/249).
10. Mae Rheoliadau 2015 yn darparu yn rheoliad 15 na chaiff yr un person gyflawni gwaith penodedig mewn ysgol oni bai ei fod (a) yn athro cymwysedig neu'n athrawes gymwysedig, neu (b) yn bodloni'r gofynion mewn o leiaf un o'r paragraffau yn Atodlen 3. Mae rheoliad 17 yn nodi pa weithgareddau sy'n 'waith penodedig' at ddibenion Rheoliadau 2015.
11. Mae rheoliad 18A yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i weithiwr cymorth dysgu ddarparu'r gwasanaethau a nodir yn rheoliad 17 ("gwaith penodedig").
12. Mae Atodlen 3 o Reoliadau 2015 yn nodi'r gofynion sydd i'w bodloni gan bersonau nad ydynt yn athrawon cymwysedig er mwyn cyflawni gwaith penodedig mewn ysgol yng Nghymru. Pan fo'r gofynion yn cynnwys cyfnod penodedig, fel ym mharagraff 4(2) sy'n ymwneud ag athrawon a hyfforddwyd dramor, dim ond am y cyfnod penodedig hwnnw y caniateir i'r person gyflawni gwaith penodedig mewn ysgol heb statws athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig.
13. O dan reoliad 16 o Reoliadau 2015, bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn estyn y cyfnod penodedig (pa un a yw'n codi o dan ofyniad yn Atodlen 3 neu reoliad 18A) drwy ychwanegu ato gyfnod sy'n hafal i agregiad o unrhyw gyfnod neu gyfnodau pan fydd y person yn absennol o'r gwaith o ganlyniad i arfer yr hawliau statudol a nodir yn y rheoliad. Ar hyn o bryd, mae Rheoliadau 2015 yn rhestru'r hawliau i absenoldeb mamolaeth, absenoldeb rhiant, absenoldeb tadolaeth ac absenoldeb mabwysiadu yn unig. Mae Rheoliadau 2023 yn diwygio rheoliad 16 o Reoliadau 2015 i gynnwys absenoldeb profedigaeth rhiant ac absenoldeb rhiant a rennir yn y rhestr o hawliau absenoldeb statudol y bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn eu cymhwyso er mwyn estyn cyfnod penodedig y gall person gyflawni gwaith

penodedig amdano heb statws athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig.

14. Gwneir Rheoliadau 2023 o dan adrannau 14 a 47(1) o Ddeddf 2014. Mae adran 47(1) o Ddeddf 2014 yn darparu bod unrhyw bŵer i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf yn arferadwy drwy offeryn statudol ac yn cynnwys y pŵer i wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig neu ganlyniadol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion y Ddeddf, neu mewn cysylltiad â hi.
15. Mae Rheoliadau 2023 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol yn unol ag adran 47(3) o Ddeddf 2014.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

16. Diben Rheoliadau 2023 yw gwneud darpariaeth i estyn "cyfnod penodedig" o dan amgylchiadau pan fo'r person wedi bod yn absennol o ganlyniad i arfer ei hawl i gymryd absenoldeb profedigaeth rhiant neu absenoldeb rhiant a rennir.

5. Ymgynghori

17. Nid yw Deddf Addysg (Cymru) 2014 yn gosod unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i ymgynghori mewn perthynas â'r rheoliadau diwygio arfaethedig. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n agos â Chyngor y Gweithlu Addysg wrth lunio'r rheoliadau diwygio hyn. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol gan nad yw hwn yn bolisi sy'n cael ei ddatblygu, ond yn hytrach yn offeryn i wneud diwygiadau canlyniadol priodol i Reoliadau 2015 yn dilyn gwneud Deddf Plant a Theuluoedd 2014 a Deddf Profedigaeth Rhiant (Absenoldeb a Thâl) 2018.

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

18. Roedd Deddf Plant a Theuluoedd 2014 yn gwneud darpariaeth ar gyfer hawl newydd i absenoldeb rhiant a rennir, ac roedd Deddf Profedigaeth Rhiant (Absenoldeb a Thâl) 2018 yn gwneud darpariaeth ar gyfer hawl newydd i absenoldeb profedigaeth statudol.
19. Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn ymwneud â'r gofyniad i bersonau gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg cyn y caniateir iddynt addysgu yng Nghymru. Mae newidiadau wedi'u gwneud i Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") mewn perthynas â'r amgylchiadau pan fydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn estyn "cyfnod penodedig".
20. Mae rheoliad 15 o Reoliadau 2015 yn darparu na chaiff yr un person gyflawni gwaith penodedig mewn ysgol oni bai ei fod (a) yn athro cymwysedig neu'n athrawes gymwysedig, neu (b) yn bodloni'r gofynion mewn o leiaf un o'r paragraffau yn Atodlen 3. Mae rheoliad 17 yn nodi pa weithgareddau sy'n 'waith penodedig' at ddibenion Rheoliadau 2015.
21. Mae rheoliad 18A yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i weithiwr cymorth dysgu ddarparu'r gwasanaethau a nodir yn rheoliad 17 ("gwaith penodedig").
22. Mae Atodlen 3 o Reoliadau 2015 yn nodi'r gofynion sydd i'w bodloni gan bersonau nad ydynt yn athrawon cymwysedig er mwyn cyflawni gwaith penodedig mewn ysgol yng Nghymru. Pan fo'r gofynion yn cynnwys cyfnod penodedig, fel ym mharagraff 4(2) sy'n ymwneud ag athrawon a hyfforddwyd dramor, dim ond am y cyfnod penodedig hwnnw y caniateir i'r person gyflawni gwaith penodedig mewn ysgol heb statws athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig.
23. O dan reoliad 16 o Reoliadau 2015, bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn estyn cyfnod penodedig (pa un a yw'n codi o dan ofyniad yn Atodlen 3 neu reoliad 18A) drwy ychwanegu ato gyfnod sy'n hafal i agregiad o unrhyw gyfnod neu gyfnodau pan fydd y person yn absennol o'r gwaith o ganlyniad i arfer yr hawliau statudol a nodir yn y rheoliad. Ar hyn o bryd, mae Rheoliadau 2015 yn rhestru'r hawliau i absenoldeb mamolaeth, absenoldeb rhiant, absenoldeb tadolaeth ac absenoldeb mabwysiadu yn unig.
24. Mae Rheoliadau 2023 yn diwygio rheoliad 16 o Reoliadau 2015 i gynnwys absenoldeb profedigaeth rhiant ac absenoldeb rhiant a rennir yn y rhestr o hawliau absenoldeb statudol y bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn eu cymhwyso er mwyn estyn cyfnod penodedig y gall person gyflawni gwaith penodedig amdano heb statws athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig.

6. Opsiynau

25. Mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

Opsiwn 1 – gwneud dim

Heb y diwygiad hwn, nid yw pob un o'r hawliau absenoldeb statudol presennol i rieni yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn Rheoliadau 2015.

Opsiwn 2 – gwneud y Rheoliadau yn awr

O ystyried pwysigrwydd yr hawliau statudol sydd wrth wraidd y diwygiadau hyn, mae Gweinidogion Cymru wedi dewis opsiwn 2, i wneud y Rheoliadau yn awr.

7. Costau a manteision

26. Nid oes costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru wrth lunio'r ddeddfwriaeth hon, ac ni nodwyd costau ychwanegol i ysgolion nac awdurdodau lleol. Disgwylir y bydd nifer yr unigolion y mae'r ddeddfwriaeth hon yn effeithio arnynt mewn unrhyw flwyddyn benodol yn fach iawn, ac mewn llawer o achosion mae eu gwaith yn cael ei oruchwylio gan athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig, felly ni fyddai angen i'r cyflogwr dalu am staff llanw ychwanegol.

27. Prif fantais gwneud y diwygiad hwn yw trin athrawon yng Nghymru â thegwch a thosturi, gan ddangos y gwerth sy'n cael ei roi ar y gweithlu addysg.

8. Adolygiad ar ôl gweithredu

28. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw darfu yn cael ei achosi gan y diwygiad hwn ond bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gysylltu â Chyngor y Gweithlu Addysg unwaith y bydd y Rheoliadau mewn grym i fonitro unrhyw faterion a mynd i'r afael â hwy.